# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Rhagfyr 2025

## SL(6)680 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2025

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ('Rheoliadau 1992'), sy'n rhagnodi'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau ardrethu annomestig sydd i'w talu gan awdurdodau bilio yng Nghymru i'r gronfa ardrethi annomestig.

Mae Atodlen 4 i Reoliadau 1992 yn cynnwys ffigurau poblogaeth oedolion ar gyfer pob awdurdod bilio.

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli Atodlen 4 newydd i Reoliadau 1992 gyda ffigurau poblogaeth oedolion wedi'u diweddaru, er mwyn sicrhau bod y sail ar gyfer cyfrifo cyfraniadau gan awdurdodau bilio yn parhau i fod yn gyfredol, ac i alluogi awdurdodau bilio i gyfrifo eu cyfraniadau ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

**Fe'u gwnaed ar:** 18 Tachwedd 2025

**Fe'u gosodwyd ar:** 20 Tachwedd 2025

**Yn dod i rym ar:** 31 Rhagfyr 2025